

Cofnodion cyfarfod rhithwir misol Cyngor Cymuned Llanddona a gynhaliwyd
Hydref 20ain 2021 am 7.30 o'r gloch.
Minutes of Llanddona Community Council virtual monthly meeting held on 20th
October 2021 7.30pm

Presennol/Present – Cadeirydd/Chairperson Myrddin Roberts, Mark Griffiths, Barbara Williams, Harri Owen, Gwennan Hughes, Anthony Jones, Rhian Hughes a Geraint Parry (Clerc/Clerk)

Cynghorwyr Sir/County Councillors – Alun Roberts

1. **Ymddiheuriadau/Apologies** - Maldwyn Williams, Martin Hennessey, Carwyn Jones a Gary Pritchard
2. **Cofnodion/Minutes** - Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 15 fed o Medi fel rhai cywir gan Barbara Williams, eiliwyd gan Mark Griffiths / *Minutes of the previous meeting held on 15th September were accepted as accurate by Barbara Williams, seconded by Mark Griffiths.*
3. **Datgan diddordeb rhagfarnol / Declaration of prejudicial interest**
 - 3.1 Datganodd Cyng. R Hughes buddiant nad oedd yn niweidiol ar eitem 9.1 / *Clr. R Hughes declared an interest that is not prejudicial on item 9.1.*
4. **Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes**
 - 4.1 Maes Chwarae Plant - dim rhagor o wybodaeth am ein cais / *Children's Play Area - no further information regarding our application.*
 - 4.2 Arwydd Eglwys Llanfihangel – Cyng. A Roberts, yn dilyn ymholiadau, mae'r gwaith gyda'r contractwr. Cytunodd hefyd i ddilyn yr arwydd ar gyfer Llanddona /*Llanfihangel Church sign - Clr. A Roberts is following enquiries, the work is with the contractor. He also agreed to follow up on the sign for Llanddona.*
 - 4.3 Gordyfiant ar ochrau'r lonydd cul - o ran y toriadau cadwraeth, mae Cyng. G Hughes wedi anfon lleoliad y trionglau gwyn at Cyng. G Pritchard sydd yn ei dro wedi gofyn i'r Cyngor Sir. Dim rhagor o fanylion hyd yma / *Overgrowth on the sides of the narrow lanes - with regards to the conservation cuts, Clr. G Hughes has forwarded the location of the white triangles to Clr. G Pritchard who in turn has asked the County Council. No further details as yet.*
 - 4.4 Mainc ar gyfer y Fynwent Gymunedol - esboniodd y Clerc y sefyllfa o ran ein cais cyntaf a chytunodd i gysylltu â'n ail ymgeisydd. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd na fydd y Cyngor Cymuned yn cyfrannu at y gost, er mwyn peidio â gosod cynsail / *Bench for the Community Cemetery - the Clerk explained the situation regarding our first request and agreed to contact the second applicant. Following discussion, it was agreed that the Community Council will not contribute to the cost, so as not to set a precedent.*
 - 4.5 Adroddir am dipio anghyfreithlon ar y tir comin tuag at fast yr heddlu / *Fly tipping is reported on the common land towards the police mast*
 - 4.6 Awdit Blynyddol 2020/21 - esboniodd y Clerc, yn dilyn hysbysiad gan Archwilio Cymru, fod nifer o amgylchiadau annisgwyl wedi arwain at oedi i'r gwaith archwilio erbyn y dyddiad cau, sef 30/09/21. Gan y dylem gyhoeddi'r hysbysiad ac atodi'r Ffurflen Flynyddol ar ein gwefan / *Annual Audit 2020/21 - the Clerk explained that following notification from Audit Wales, a number of unforeseen circumstances has resulted in delays to the audit work by the deadline date of 30/09/21. In that we should publish the notice and attach the Annual Return on our website.*
 - 4.7 Pori ar Dir Comin Rhos - esboniodd y Cadeirydd ei siom gan nad oes arwyddion rhybudd wedi'u codi / *Grazing on Rhos Common - the Chairperson explained his disappointment in that there are no warning signs erected.*

5. Adrodd gan y Cynghorwr Sir / Report by County Councillor

- 5.1 Esboniodd fod ffigurau Covid yn codi yn Ward Seiriol sy'n effeithio ar lawer o Ysgolion. Mae'r pigiad ffliw bellach ar gael yn eang mewn llawer o siopau ond mae angen cyfleu'r neges yn eang / *Explained that the Covid figures are rising in the Seiriol Ward which is affecting many Schools. The flu jab is now widely available in many outlets but the message needs to be widely communicated.*
- 5.2 CNC - yn dilyn penderfyniadau diweddar ar lawer o faterion yn y Ward hon, eglurodd Cyng. Roberts ei fod wedi colli pob ffydd yn yr asiantaeth yma. Mae'r camau gweithredu a'r penderfyniadau a wneir yn gwbl siomedig a bydd yn codi hyn gyda Rhun ap Iorwerth / *NRW - following recent decisions on many matters in this Ward, Cllr Roberts explained that he has lost all faith in this agency. The actions and decisions made are totally disappointing and will bring this up with Rhun ap Iorwerth.*
- 5.3 Trafod y gwaith gyda'r Cyngor Sir ynglŷn â'r traeth. Nodwyd mai blwyddyn etholiad fydd y flwyddyn nesaf a'r pwysigrwydd i gynnal perthynas waith gydag aelodau a swyddogion newydd o bosib / *Discussed the work with the County Council regarding the beach. It was noted that next year will be election year and the importance to maintain a working relationship with possibly new members and officers.*

6. Traeth / Beach

- 6.1 Gwrych Tail - trafodwyd y sefyllfa bresennol a'r diffyg cyfathrebu gan CNC. Penderfynwyd cytuno ar y cyfathrebu cyn mynd ymlaen i'r cam nesaf. *Manure Hedge - discussed the current situation and the lack of communication by NRW. It was decided to agree the communication before proceeding to the next stage.*
- 6.2 Cyngor Cyfreithiol - esboniodd y Clerc y cyngor cyfreithiol a gafwyd yn ymwneud â'r eiddo dan sylw. / *Legal Advice - the Clerk explained the legal advice obtained relating to the property in question.*
- 6.3 Cyfathrebiad gan y Swyddog Cynllunio Gwastraff ynglŷn â'r difrod i'r tir gyferbyn â Phen Trans a'r deunydd gwastraff. Trafodwyd yr ateb gan y Cyngor Sir i'r mater hwn a'r sefyllfa bresennol / *Communication from the Waste Planning Officer regarding the damage to the land opposite Pen Trans and the waste material. Discussed the reply from the County Council to this matter and the current situation.*
- 6.4 Awgrym a gyflwynwyd gan y Cyngor Sir i gyfarfod rownd bwrdd gyda thirfeddianwyr lleol. Gofynnwyd am agenda / *Suggestion put forward by the County Council to a round table meeting with local landowners. An agenda has been requested.*
- 6.5 Lôn Goch - Deallir bellach fod y gwaith atgyweirio arfaethedig yn dilyn y tirlithriad wedi'i ohirio tan ganol mis Tachwedd nesaf / *Lôn Goch - It is now understood that the planned repair work following the landslide has been delayed until the middle of next November*
- 6.6 Lonydd i'r Traeth – deallwyd nid oedd gwaith ail-wynebu ffyrdd eraill i lawr i'r traeth yn enwedig ger Ysgubor Ddegwm a Llys y Gwynt yn y rhaglen eleni ond gobeithio y caiff ei gynnwys yn y flwyddyn ariannol nesaf / *Roads to the beach - the re - surfacing work on other roads down to the beach especially by Ysgubor Ddegwm and Llys y Gwynt were not in this years programme and hopefully will be included in the next financial year.*
- 6.7 Esboniodd y Cadeirydd y difrod a'r gwaith sydd eu hangen i atgyweirio'r toiledau. Mae'r Clerc wedi adrodd hyn i'r Cyngor Sir sydd wedi cytuno i fynd i'r afael â'r mater y tymor nesaf. Cytunodd Cyng. A Roberts i drafod hyn ymhellach gyda'r Cyngor Sir / *The Chairperson explained the damage and work required to repair the toilets. The Clerk has reported this to the County Council who have agreed to address the matter next season. Cllr. Roberts agreed to discuss this further with the County Council.*

7. Cofeb / Memorial – Capel Peniel

- 7.1 Esboniodd y Clerc y cynnig gan Mr Ellis Wyn Roberts i adleoli'r gofeb i ochr arall wal y Capel ger y ffordd. Dywedodd hefyd y byddai'r holl gostau symud ac adnewyddu'r gofeb yn dod o dan Henaduriaeth Môn / *The Clerk explained the offer by Mr Ellis Wyn Roberts to relocate the memorial to the other side of the Chapel wall near the road.*

He also stated that all removal costs and refurbishment of the memorial would be covered by the Presbytery.

- 7.2 Yn dilyn trafodaeth, ystyriwyd y byddai'r lleoliad a awgrymwyd yn beryglus i ddefnyddwyr y ffordd ac y dylem gytuno ar leoliad addas. Penderfynwyd hefyd, oherwydd colli'r Capel, y dylai buddiant gael ei gynnis i'r Gymuned gan y Henaduriaeth. Dywedwyd bod angen cael meddyliau pobl leol ynglŷn â'r gofeb / *Following discussion it was considered that the location suggested would be dangerous to road users and that we should agree a suitable location. It was also decided that due to the loss of the Chapel, that a benefit in kind should be offered to the Community by the Presbytery. It was stated of the need to obtain the thoughts of local people regarding the memorial.*

8. Llwybrau Cyhoeddus / Public Footpaths

- 8.1 Llwybr Arfordirol - yn dilyn cyngor gan y Cyngor Sir, eglurodd y Clerc fod y gwaith hwn gyda'r contractwr a disgwylir iddo gael ei gwblhau ganol mis Hydref / *Coastal Footpath - following advice from the County Council, the Clerk explained that this work was with the contractor and is due to be completed mid October.*
- 8.2 Llwybrau 22/028/1 - Fferm y Wern a 22/052/1 o Egwlys Llaniestyn tuag at Tan y Fynwent - esboniodd y Cadeirydd nad oes dyddiad wedi'i drefnu gyda'n contractwr. / *Footpaths 22/028/1 & 22/052/1 from Llaniestyn Church towards Tan y Fynwent - the Chairperson explained that no date has been arranged with our contractor.*

9. Gwaith BT / BT Work

- 9.1 Esboniodd y Clerc ganlyniad cyfarfod y safle ar 6/10/21 gyda BT drwy rannu diagramau, i gyflenwi opteg ffibr i Llygaid y Rhos a Tyn Llan o Tyn Rhos. Byddai'r gwaith yn golygu codi un polyn ar dir comin. Byddai taliad un tro yn cael ei dderbyn ar gyfer y polyn hwn. Cytunwyd yn unfrydol ar y cynllun / *The Clerk explained the outcome of the site meeting on 6/10/21 with BT by sharing diagrams, to supply fibre optic to Llygaid y Rhos and Tyn Llan from Tyn Rhos. The work would involve erecting one pole on common land. A one off payment would be received for this pole. The plan was unanimously agreed.*

10. Gwaith / Work SP Energy

- 10.1 Tyn Llain - esboniodd y Clerc ein bod yn aros am yr adborth gan y Swyddog Gorfodi ynglŷn â'r gor-chwarela ac nad oedd cynllun bioamrywiaeth wedi'i gyflwyno gyda'r cais cynllunio. Esboniodd y Clerc hefyd y cais am hawddfrait gan SPEN i groesi'r llwybr troed cyhoeddus cyfagos yn dilyn y gwaith ar safle Tyn Llain gan Broject Glas. Trafodwyd y cynnis o fudd mewn nwyddau. Y Clerc i gysylltu â Glas Projects / *The Clerk explained that we await the feedback from the Enforcement Officer regarding the over quarrying and that no biodiversity plan had been submitted with the planning application. The Clerk also explained the request for easement by SPEN to cross the nearby public footpath following the work on the Tyn Llain site by Glas Projects. The offer of benefit in kind was discussed. The Clerk to contact Glas Projects.*
- 10.2 Troed y Rhiw - Mynegwyd pryder ynglŷn â'r ffens. I'w drafod ymhellach / *Concern was raised regarding the fence. To be discussed further.*

11. Cynghrair Seiriol / Seiriol Alliance

- 11.1 Esboniodd Cyng. R Hughes y sefyllfa a'r costau cysylltiedig o'r Defib sydd wedi'i leoli yng Nghaffi'r Traeth. Swm a lleoliad yr arwyddion sydd i'w cytuno. Cytunwyd yn unfrydol y byddai'r Cyngor Cymuned yn cyfrannu at hanner cyfanswm y gost / *Clr. R Hughes explained the situation and related costs of the Defib located at the Beach Cafe. The amount and location of the signs to be agreed. It was unanimously agreed that the Community Council would contribute to half of the total cost.*

12. Ceisiadau Cynllunio / Planning Applications

Dim cais cynllunio i drafod / *No planning application to discuss*

Penderfyniadau Cynllunio / Planning Decisions

- 12.1 HHP/2021/283 - Tre Wen, Llanddona - Cais llawn ar gyfer amnewid y garafán sefydlog bresennol am gaban newydd ar gyfer defnydd ategol o'r annedd - caniateir / *Full application for the replacement of existing static caravan with new cabin, for ancillary use of the dwelling - permitted.*
- 12.2 HHP/2021/247 – Tre Wen, Llanddona - cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu - caniateir / *Full application for alterations and extensions - granted.*
- 12.3 ELE/2021/1 – Cais llawn o dan Adran 37 deddf trydan i ail adeiladu llinell uwchben 11KV bresennol, wedi'i chefnogi gan bolion pren, o Is-orsaf bresennol ynghyd ag adfer tua 2.2 cilomedr o Linell Uwchben 11kV rhwng Biwmares a Pentraeth– dim gwrthwynebiad / *Full application under Section 37 of the Electricity Act 1989 for the rebuilding of an existing 11kV Overhead Line, supported by wood poles, from an existing Substation together with recovering approx. 2.2km of 11kV Overhead Line between Biwmares a Pentraeth / Beaumaris and Pentraeth – no objection.*

13 Cyfrifon / Accounts

Dim anfonebau i'w talu / *No invoices for payment*

- 13.1 Esboniodd y Clerc yr incwm a'r gwariant hyd at ddiwedd chwarter 2 / *The Clerk explained the income and expenditure up to the end of quarter 2*
Cyfrif Cyfredol / Current Account - £8,376
Cyfrif Busnes / Business Account - £200.00

Incwm / Income

- 13.1 TAW / VAT - £93.70

14 Gohebiaeth / Correspondence

- 14.1 Tyn Llain – S Hunt
- 14.2 Tipio Anghyfreithiol / *Fly Tipping*
- 14.3 Arolwg cefn gwlad a'r arfordirol / *Countryside and Coast survey – 13/10/21*
- 14.4 Ymgynghoriad ar ganllawiau arfaethedig egwyddorion gweinyddu da a rheoli cofnodion da / *Consultation on proposed guidance on principles of good administration and good records management*
- 14.5 Priffyrdd – dim ail-wynebu lonydd y traeth / *Highways – not resurfacing the beach roads*
- 14.6 Cyhoeddi TAN15 map llifogydd ar gyfer cynllunio / *TAN15 flood map for planning*
- 14.7 Calon Hearts – Defib
- 14.8 Gwrthwynebu ceisiadau cynllunio ar sail perygl i'r Gymraeg / *Objection to risk-based planning applications for the Welsh Language*
- 14.9 Un Llais Cymru – hyfforddiant mis Hydref / *One Voice Wales – October training*
- 14.10 Un Llais Cymru – bwletin newyddion / *One Voice Wales news bulletin*
- 14.11 Ymgynghoriad statudol teithio llesol / *Active travel statutory consultation - 30/11/21*
- 14.12 Ymgynghoriad Strategaeth 2022-2027 Tai ac Anghenion Tai / *Consultation Housing Strategy 2022-2027 and Housing Needs Survey - 15/11/2021*
- 14.13 Fersiwn ddiwygiedig model Brotocol ar gyfer datrys cwynion / *Amended version of the model Informal resolution Protocol*

15. UFA / AOB

- 15.1 Trafodwyd y pecyn cymorth peilot a ddatblygwyd gan Un Llais Cymru i helpu Cynghorau Tref a Chymuned i aros ar ben gofynion llywodraethu a myfyrio'n rheolaidd ar sut mae'n gwasanaethu ei gymuned. Cytunwyd i gyflwyno'r Cyngor Cymuned ar gyfer y prawf ffordd beilot / *Discussed the pilot toolkit developed by OVV to help Town & Community Councils to stay on top of governance requirements and regularly reflect on how it is serving its community. It was agreed to put the Community Council forward for the pilot road test.*
- 15.2 Yn dilyn pryder a godwyd gan breswlydd lleol, mae'r Clerc wedi rhoi'r ddolen i'r arolwg Ymgynghoriad Strategaeth Tai 2022-27 ar y cyfryngau cymdeithasol /

Following concern raised by a local resident, the Clerk has put the link to the Consultation Housing Strategy 2022-27 survey on social media.

- 15.3 Protocol Datrys cwynion - esboniodd y Clerc y protocol ynghylch cwynion lefel isel / *Informal Resolution Protocol - The Clerk explained the protocol regarding low level complaints*
- 15.4 Gorphwysfa - dywedodd y Cadeirydd fod difrod wedi'i wneud i wal yr Eglwys gan weithwyr sy'n gweithio yng Ngorphwysfa. Nodwyd bod y mater hwn wedi'i godi mewn gohebiaeth i'r cais cynllunio diweddar. Felly, ni lwyddwyd ein pwynt. Y Clerc i ddwyn hyn i sylw'r adran gynllunio / *The Chairperson stated that damage has been done to the Church wall by workers working at Gorphwysfa. It was noted that this matter was raised in correspondence to the recent planning application. Therefore our point went unnoticed. The Clerk to bring this to the attention of the planning department.*
- 15.5 Gor-dyfiant ar lôn Hafoty - mae adran Priffyrdd wedi cysylltu ag Ystad Bulkeley / *Overgrowth on Hafoty road - the highways Department have contacted the Bulkeley Estate*
- 15.6 Yn dilyn y cylchlythyr gan Un Llais Cymru, trafodwyd ein trefniadau cyfarfod presennol. Oherwydd yr ystadegau covid presennol, cytunwyd yn unfrydol i gynnal y cyfarfodydd rhithwir / *Following the circular from OVW, we discussed our current meeting arrangements. Due to the current covid statistics, it was unanimously agreed to maintain the virtual meetings.*
- 15.7 Trafodwyd yr angen i dorri'r helyg ar dir comin ger Tai Bach / *Discussed the need to cut the willow on common land by Tai Bach*
- 15.8 Nodwyd yr angen i arsylwi ar dresmasu posibl ar dir comin ger Pensarn / *It was noted of the need to observe possible encroachment on common land near Pensarn.*
- 15.9 Fe'n hatgoffwyd o'r angen i ddatblygu polisi ynghylch hawddfrait / *We were reminded of the need to develop a policy regarding easement.*
- 15.10 Cytunwyd i ddechrau ein cyfarfod mis nesaf am 7yh er mwyn cwmpasu cyfarfod Cwlwm Seiriol / *It was agreed to start our next months meeting at 7pm in order to encompass the Cwlwm Seiriol meeting.*

16. Dyddiad cyfarfod nesaf / Date of next meeting:

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Daeth y cyfarfod i ben 21:50. Cyfarfod nesaf ar 17/11/21 am 19:00 / *There was no further business to discuss. Meeting ended 21:50pm. Next meeting to be held on 17/11/21 at 19:00pm.*

Llofnod y Cadeirydd

Dyddiad